**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1226
Ein cyf/Our ref JMSS/10572/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Rhagfyr 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Tachwedd fel Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau at Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd eich llythyr yn amlinellu'r ddeiseb gan y garfan sy'n gwneud gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd, yn galw am ddileu'r rhwystrau i mewn i faes gwaith cymdeithasol, yn ogystal ag annog parch cyfartal rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd. Rwy'n ymateb fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am wasanaethau cymdeithasol.

Rydym wedi ymrwymo i weithio tuag at sicrhau bod parch cyfartal rhwng y gweithluoedd gofal cymdeithasol ac iechyd. Rydym hefyd yn gweithredu i wella amodau gwaith gweithwyr gofal cymdeithasol, yn ogystal â phroffesiynoli'r sector drwy broses o gofrestru.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn arwain ar ddatblygu Cynllun Gweithlu gwaith cymdeithasol a fydd yn edrych ar ba newidiadau a fyddai'n bosibl er mwyn cefnogi pobl i hyfforddi fel gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys newidiadau mewn perthynas â'r bwrsariaeth. Dyma un o'r camau gweithredu cyntaf sy'n cael ei ddatblygu o dan 'Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol' ar y cyd gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Disgwylir y bydd y cynllun gweithlu drafft hwn ar gael yn y flwyddyn newydd.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

O ran y mater penodol a godwyd ynglŷn â chyllid ôl-raddedig ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, mae anghysondebau yn y rheoliadau sy'n llywodraethu cyllid myfyrwyr wedi rhwystro myfyrwyr ôl-raddedig sydd wedi dewis derbyn y fwrsariaeth gwaith cymdeithasol rhag ymgeisio am rai benthyciadau i fyfyrwyr. Rydym wedi bod yn cydweithio â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr i edrych ar sut y gellid sicrhau newidiadau i'r rheoliadau hyn er mwyn galluogi ôl-raddedigion i gael gafael ar gymorth ariannol ychwanegol gan Gyllid Myfyrwyr Cymru. Pan fydd y newidiadau wedi eu cwblhau, golyga hyn y bydd myfyrwyr sy'n gymwys yn gallu ymgeisio am fenthyciad gostyngol ychwanegol gan Gyllid Myfyrwyr Cymru yn yr un modd â myfyrwyr is-raddedig. Fodd bynnag, bydd hyn yn gofyn am rywfaint o newid i'r meini prawf cymhwysedd sydd wedi'u hamlinellu yn y rheoliadau. Mae hon yn broses barhaus ar hyn o bryd, ac o ganlyniad i amserlenni ar gyfer cyflwyno rheoliadau o'r fath, ni fyddai unrhyw newidiadau yn dod i rym tan y flwyddyn academaidd 2022/23.

Gobeithiaf fod hyn o gymorth.

Yn gywir,



**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services